**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Y Grŵp Gweithredu Strategol**
**Dydd Mawrth 4 Awst 2020**
**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd LlC groeso i bawb i'r cyfarfod.

Aeth LlC ati i atgoffa'r grŵp fod y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ym mis Ebrill i ohirio'r prosiect gweithredu am ddeufis er mwyn i'r tîm allu pwyso a mesur y sefyllfa a mynd i'r afael â gwaith cynllunio wrth gefn o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Roedd y Dirprwy Weinidog yn ddiolchgar i aelodau'r grŵp am eu hymateb cadarnhaol i ailddechrau'r prosiect ym mis Mehefin.

Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020 a disgwylir i'r gyfraith ddod i rym ddydd Llun 21 Mawrth 2022.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol (3/02/2020)

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020. Nodwyd bod cylch gorchwyl y grwpiau gweithredu a chrynodebau o'r cyfarfodydd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac y byddant yn parhau i gael eu cyhoeddi yno yn y dyfodol.

## 3. Y Diweddaraf am y Statws Gweithredu:

Rhoddodd LlC y diweddaraf am y gwaith gweithredu a'r datblygiadau allweddol.

## 4. Argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Diolchodd LlC i'r holl sefydliadau a gynrychiolir ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys am eu gwaith.

Aeth LlC ati i grynhoi argymhellion y grŵp ynghylch datblygu dull o ymdrin â'r Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Datblygwyd y dull hwn trwy gynnal trafodaethau yn ystod pedwar o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a thrwy ymweld â phob un o'r pedwar heddlu. Cafodd yr argymhellion eu llunio trwy roi ystyriaeth lawn i flaenoriaethu'r arfer o ddiogelu plant.

Bu'r aelodau'n trafod cyllid ac adnoddau; gweithio mewn partneriaeth a gweithio amlasiantaethol; y dull o ymdrin ag unrhyw adroddiadau'n ymwneud â rhieni dan 18 oed; a chyd-destun ehangach y rhaglen weithredu sy'n berthnasol i ddatrysiadau. Mae'r cyd-destun ehangach yn cynnwys y gwaith cefnogi teuluoedd a'r gwaith ataliol a wneir eisoes yng Nghymru, yn cynnwys trwy raglenni rhianta, a'r gwaith mae'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta yn ei wneud i adolygu'r ddarpariaeth bresennol; a'r ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo', sy'n cynnig gwybodaeth a

chyngor ar lefel gyffredinol yn ymwneud â rhianta cadarnhaol, yn cynnwys dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi plant yn gorfforol.

Gofynnodd y grŵp a fyddai modd cynnal mwy o waith manwl cyn penderfynu ar y dull o ymdrin â'r cynllun datrysiadau.

## 5. Y Diweddaraf am Gyfathrebu

Cyflwynodd LIC y diweddaraf, gan sôn am effaith y pandemig ar gynlluniau ar gyfer rhoi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar waith; y statws cyfredol; a'r gwaith sydd ar y gweill i ailwampio'r ymgyrch gyfathrebu. Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth. Ar ôl hynny daeth y cyfnod clo, a gohiriwyd yr ymgyrch er mwyn i negeseuon cyfathrebu Llywodraeth Cymru allu canolbwyntio ar wybodaeth yn ymwneud â Covid-19.

## 6. Trafodaeth i gloi ac Unrhyw Fater Arall

Diolchodd LIC i'r aelodau am eu hamser a'u cymorth parhaus. Cadarnhaodd LIC y rhagwelir y bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ynglŷn â'r strategaeth gyfathrebu ehangach; ac y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro yn cyflwyno cyngor ynghylch yr ymateb i lythyr y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Gadeirydd y Grŵp Gweithredu Strategol, dyddiedig 11 Rhagfyr 2019, ynglŷn â chynnwys posibl adroddiad adolygiad ôl-weithredu.